Cyngor Sir Gâr

Siarter Archwilio Mewnol

2021 - 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cenhadaeth, Diffiniad, Cwmpas ac Awdurdod y Swyddogaeth Archwilio Mewnol	3
3. Amcanion	4
4. Rolau a Chyfrifoldebau	4
5. Côd Moeseg	6
6. Cynllunio Archwilio	6
7. Adrodd	7
8. Sicrhau Ansawdd	7
9. Perthnasoedd	8
10. Twyll ac Anghysondeb	8
11. Yr Iaith Gymraeg	8
12. Cysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol	9
13. Adolygu	9

1. Cyflwyniad

Diben y Siarter hon yw diffinio'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ac esbonio ei phwrpas, ei hawdurdod a'i chyfrifoldebau.

Mae'r Siarter hon wedi'i hysgrifennu yn unol â Safon 1000 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

At ddibenion gweithgarwch Archwilio Mewnol, diffinnir y termau canlynol fel a ganlyn:
Y 'Bwrdd' - y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
'Prif Weithredwr Archwilio' - Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
'Uwch-reolwyr' - y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Swyddog Monitro.

2. Cenhadaeth, Diffiniad, Cwmpas ac Awdurdod y Swyddogaeth Archwilio Mewnol

Cenhadaeth

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, yn nodi mai cenhadaeth Archwilio Mewnol yw "*gwella a diogelu gwerthoedd sefydliadol drwy roi sicrwydd, cyngor a gwybodaeth gwrthrychol seiliedig ar risgiau.*"

Diffiniad

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:
"*... gweithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol, sydd â'r nod o ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy ddarparu dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithlonrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.*"

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yn un o brif elfennau llywodraethu da.

Cwmpas

Mae cwmpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caniatáu mynediad heb gyfyngiad i weithrediadau'r Awdurdod er mwyn adolygu, adrodd a rhoi'r sicrwydd priodol yn seiliedig ar ei adolygiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd fynediad heb gyfyngiad i'r holl gofnodion ac asedau sydd eu hangen ar Archwilwyr yn ystod archwiliad. Yn ogystal, bydd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol fynediad heb gyfyngiad i'r canlynol:-

- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Y Prif Weithredwr
- Arweinydd y Cyngor
- Aelodau'r Cyngor
- Prif Swyddogion Unigol
- Holl Weithwyr yr Awdurdod

Mae'n bosibl y bydd mynediad o'r fath i gofnodion, asedau a phersonél yn gyfyngedig i unigolion penodol a enwir, fel y cytunwyd arnynt gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, lle y ceir gwybodaeth hynod sensitif neu gyfrinachol.

Awdurdod

Mae awdurdod y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn deillio o ddeddfwriaeth. Awgrymir y gofyniad am swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Awdurdodau Lleol gan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau '*wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'u swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny.*' Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth leol '*gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system rheoli mewnol.*'

3. Amcanion

Dyma brif amcanion Archwilio Mewnol:

- Darparu gwasanaeth archwilio annibynnol a gwrthrychol o safon sy'n diwallu anghenion y Cyngor, yn ychwanegu gwerth, yn gwella gweithrediadau ac yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus mewn modd effeithiol.
- Rhoi sicrwydd i reolwyr bod gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu cynnal yn unol â rheoliadau allanol, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau mewnol.
- Cynorthwyo i sicrhau bod amcanion y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Darparu dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithlonrwydd prosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu.
- Rhoi cyngor a chymorth i reolwyr er mwyn sicrhau bod amgylchedd rheoli effeithiol yn cael ei gynnal.
- Hyrwyddo diwylliant yn y Cyngor sy'n atal twyll, llwgrwobrwyo a llygru, er mwyn cynorthwyo i atal a darganfod twyll.
- Ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo, llygru ac unrhyw anghysondeb arall.
- Cyfathrebu â'r heddlu os amheuir bod gweithgareddau troseddol.

4. Rolau a Chyfrifoldebau

Rolau Archwilio Mewnol

Er mwyn cyflawni amcanion Archwilio Mewnol, mae Archwilwyr Mewnol yn gyfrifol am y canlynol:

- Adolygu ac asesu cadernid, digonolrwydd a dibynadwyedd systemau a gweithrediadau rheoli ariannol a systemau a gweithrediadau rheoli eraill.
- Adolygu ac asesu effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol.
- Asesu pa mor briodol yw camau gweithredu'r rheolwyr ar gyfer gwella, lle y bo'n briodol.
- Adolygu ac asesu gweithdrefnau i wirio bod asedau a buddiannau'r Cyngor wedi'u diogelu'n ddigonol a bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

- Gwirio y cydymffurfir â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni hynny.
- Sicrhau bod prosesau llywodraethu a rheoli risg yn effeithiol ac yn gadarn.
- Cynnal ymchwiliadau annibynnol i honiadau o dwyll ac anghysondeb yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Darpariaeth y Swyddogaeth Archwilio Mewnol

Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei darparu'n fewnol ac mae'n cynnwys y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, Prif Archwilydd, 4 Uwch-archwilydd, 2 Archwilydd Cynorthwyol a 3 Thechnegydd Archwilio. Mae'r tîm yn cynnwys Cyfrifwyr ac Archwilwyr sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol a rhai sydd wedi'u cymhwyso'n rhannol (CIPFA, ACCA, and AAT).

Strwythur Rheoli

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ystod eang o gyfrifoldebau i weinyddu'n briodol faterion ariannol yr Awdurdod. Dull allweddol a ddefnyddir ganddo i gyflawni ei rwymedigaeth statudol yw gwaith Archwilio Mewnol. Mae cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i ddirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gweithredu fel 'Cleient Arweiniol' ar ran yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd.

Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu fel Uned ar wahân yn yr Is-adran Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn Adran y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn gyfrifol am sicrhau bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a ddarperir o safon broffesiynol a'i fod yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Prif Archwilydd
Mae'r Prif Archwilydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr adolygiadau a nodir yn y Cynllun Archwilio yn cael eu rheoli'n briodol a bod materion sy'n codi yn sgil adolygiadau unigol yn cael eu hadrodd yn ddigonol. Mae'r Prif Archwilydd yn gyfrifol am reoli'r Staff Archwilio Mewnol o ddydd i ddydd a chyflawni'r Cynllun Archwilio fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Mae'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a'r Prif Archwilydd yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd (o leiaf bob chwarter) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd ynghylch Gweithgarwch Archwilio a Gynllunnir, yn ogystal ag unrhyw faterion neu ganfyddiadau allweddol sy'n codi yn sgil gwaith nas cynllunnir. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo ac yn monitro cynnydd y Cynllun Archwilio Blynyddol a'r Cynllun Archwilio Strategol 3 blynedd.

Annibyniaeth Sefydliadol

Mae Safon 1100 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio adrodd i lefel yn y sefydliad sy'n galluogi'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Bydd y Prif Weithredwr Archwilio yn cadarnhau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o leiaf bob blwyddyn, annibyniaeth sefydliadol y gweithgarwch Archwilio Mewnol.

Cyflawnir annibyniaeth sefydliadol yn effeithiol pan fydd y Prif Weithredwr Archwilio yn adrodd mewn modd gweithredol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud y canlynol:

- Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol;
- Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol sy'n seiliedig ar risg;
- Cael cyfathrebiadau gan y Prif Weithredwr Archwilio ynghylch perfformiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â'i gynllun a materion eraill;
- Gwneud ymholiadau priodol ynghylch y rheolwyr a'r Prif Weithredwr Archwilio i bennu a oes cwmpasau amhriodol neu gyfyngiadau amhriodol o ran adnoddau.

5. Côd Moeseg

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr holl Archwilwyr Mewnol yn cydymffurfio ag egwyddorion y Côd Moeseg o ran gonestrwydd, gwrthrychedd, cyfrinachedd a chymhwysedd.
- Gweithredu'r Safonau Nodweddion a Pherfformiad fel y manylwyd arnynt yn Adran 5 o'r Safonau

6. Cynllunio Archwilio

Caiff y Cynllun Archwilio ei lunio yn seiliedig ar risg, gan ystyried y Risgiau Corfforaethol a nodir yng Nghofrestr Risg yr Awdurdod a galluogi ymgynghori â Rheolwyr yn yr Adrannau amrywiol ac Archwilwyr Allanol yr Awdurdod.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ymrwymo i ddarparu adolygiad o holl systemau'r Awdurdod dros gyfnod y Cynllun Archwilio. Mae systemau mawr (systemau hanfodol) yn cael eu harchwilio ddwywaith y flwyddyn, ac mae systemau eraill yn cael eu harchwilio ar sail gylchol gan ddibynnu ar ffactor risg/natur/gwerth y system dan sylw. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn gyfrifol am y canlynol:

- Llunio Cynllun Archwilio treigl Seiliedig ar Risg, wrth ymgynghori ag Uwch-reolwyr Adrannol a'r Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru). Bydd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn trafod y Cynllun Strategol arfaethedig â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo'n ffurfiol.
- Trosi'r Cynllun Strategol yn Gynlluniau Blynyddol sy'n nodi'r adolygiadau sydd i'w cynnal ym mhob Blwyddyn Archwilio. Cytunir ar y Cynllun Blynyddol â Chyfarwyddwr

y Gwasanaethau Corfforaethol, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi gwybod i bob Adran am yr adolygiadau cynlluniedig a fydd yn cael eu cynnal yn ystod pob Blwyddyn Archwilio a bydd yn ceisio cynnal yr adolygiadau ar adeg sy'n gyfleus i'r ddau barti.

7. Adrodd

Bydd yr holl aseiniadau archwilio'n destun adroddiadau ffurfiol. Anfonir adroddiadau drafft at y rheolwyr perthnasol, sy'n gyfrifol am y maes dan sylw, er mwyn iddynt gytuno ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau a nodi eu sylwadau a'r camau y cytunwyd arnynt mewn perthynas ag unrhyw argymhellion a wneir.
Bydd Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol, ar ôl i'r Penaethiaid Gwasanaeth/Rheolwyr/Penaethiaid Ysgolion gytuno arnynt, yn cael eu dosbarthu i'r Cyfarwyddwyr perthnasol, yr Aelodau o'r Cabinet, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y Cyrff Llywodraethu Ysgolion.

Mae adroddiadau archwilio yn:

- Cynnwys cynllun gweithredu sy'n dangos y camau rheoli y cytunwyd arnynt a'r dyddiad i'w gweithredu.
- Rhoi barn ynghylch y system fel y mae ar adeg yr archwiliad yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar yr adeg honno.
- Diffinio dosbarthu'r adroddiadau drafft a'r adroddiadau terfynol.

Mae gwendidau hanfodol a nodir yn ystod adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu cyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Yn unol â Safon 2500 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, cynhelir archwiliadau dilynol i sicrhau bod y mesurau rheoli a'r camau y cytunwyd arnynt wedi'u gweithredu gan reolwyr.

8. Sicrhau Ansawdd

Fel y nodir yn y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella Archwilio Mewnol, bydd y Prif Weithredwr Archwilio yn cynnal proses adolygu o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i roi sicrwydd rhesymol bod ei waith yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ac yn unol â gofynion y ddogfen hon. Bydd asesiadau mewnol yn cynnwys:

- Monitro parhaus o berfformiad y gwasanaeth gan gynnwys sicrhau bod y gwaith a wneir yn cael ei oruchwylio'n ddigonol.
- Hunan-asesiadau rheolaidd ynghylch sut y mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Bydd asesiadau allanol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael eu cynnal bob 5 mlynedd, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol wella eu gwybodaeth, eu sgiliau, a'u cymwyseddau eraill drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Caiff adroddiadau archwilio eu hadolygu gan uwch-aelod o staff/cydweithwyr cyn cael eu cyhoeddi.

9. Perthnasoedd

Cyffredinol - ym mhob un o'r perthnasoedd hyn, bydd yr unigolyn/unigolion yn cael eu trin â pharch a chwrteisi mewn modd proffesiynol. Ymdrinnir ag unrhyw faterion cyfrinachol neu sensitif sy'n cael eu hadrodd i staff Archwilio Mewnol mewn modd priodol. Lle y gallai materion achosi embaras i'r Cyngor, rhoddir gwybod i'r rheolwr perthnasol ar unwaith er mwyn rhoi sylw i'r mater heb oedi.

Mewnol - mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn awyddus i feithrin a chynnal perthynas waith â'r holl Reolwyr Gwasanaethau o ran cynllunio gwaith, cynnal adolygiadau a chytuno ar Gynlluniau Gweithredu yn sgil y gwaith a wneir.
Er bod angen cynnal dyletswyddau statudol a'i rôl fel arfarnwr annibynnol, mae'r Uned yn cydnabod bod yn rhaid iddi weithio *gyda Rheolwyr* i gytuno ar welliannau.

Cynghorwyr - y prif ddull cyfathrebu rhwng y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Cynghorwyr yw drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Allanol - bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyfathrebu â'r Archwilwyr Allanol er mwyn gwneud y canlynol:

- Meithrin perthynas waith gydweithredol a phroffesiynol.
- Sicrhau nad oes gwaith yn cael ei ddyblygu.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol.
- Cydlynu'r ymdrech archwilio gyffredinol.

10. Twyll ac Anghysondeb

Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn cynnal gwaith ymchwiliol o ran twyll/anghysondeb, ac eithrio twyll ac anghysondeb sy'n gysylltiedig â Budd-dal Tai, yr ymchwilir iddynt gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

11. Yr Iaith Gymraeg

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwbl ymrwymedig i Bolisi'r Awdurdod o ran yr Iaith Gymraeg. Lle y bo Adran/Sefydliad yn dymuno cynnal adolygiad drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymdrechu i ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg a llunio'r holl ohebiaeth, adroddiadau a chynlluniau gweithredu yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i ffurflenni safonol Archwilio Mewnol gael eu llunio'n ddwyieithog.

12. Cysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar weithgareddau Archwilio Mewnol, mae croeso i chi gysylltu â'r canlynol:

Helen Pugh, Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth
Ffôn: 01267 246223
E-bost: hlpugh@sirgar.gov.uk

Caroline Powell, Prif Archwilydd
Ffôn: 01267 246217
E-bost: capowell@sirgar.gov.uk

13. Adolygu

Bydd y Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Prif Weithredwr Archwilio a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w chymeradwyo.